Arddangosfa addysg uwch Caerdydd 2018

# Pecyn gwybodaeth i ymwelwyr

Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Y Ganolfan Athletau Dan Do Genedlaethol

Heol Cyncoed

Caerdydd

CF23 6XD

Dydd Mercher 28 Mawrth 2018

09:30 – 15:00



# Cynnwys

A ..... 3
Asesu risg ..... 3
B ..... 3
Bwyd a Diod ..... 3
Bysiau ..... 3
Damweiniau a damweiniau fu bron â digwydd ..... 3
C ..... 3
Ceir ..... 4
Cyfarwyddiadau ..... 4
Cymorth cyntaf ..... 4
Cyrraedd ..... 4
D ..... 5
Damweiniau a damweiniau fu bron â digwydd ..... 5
Diogelwch ..... 5
E ..... 5
Eiddo coll ..... 5
P ..... 5
Parcio ..... 5
Peiriannau arian parod ..... 5
Rh ..... 6
Rhyngrwyd ..... 6
S ..... 6
Staff y digwyddiad ..... 6
T ..... 6
Trefniadau mewn argyfwng ..... 6
Trefnwyr ..... 6
Y ..... 6
Ysmygu ..... 6
Yswiriant ..... 7

## A

### Asesu risg

Mae’r trefnydd wedi cwblhau asesiad risg ar gyfer y digwyddiad. Mae copi ohono yng nghefn y pecyn hwn.

## B

### Bwyd a Diod

Bydd bwyd a diod ar gael i ymwelwyr wrth y fynedfa.

### Bysiau

Bydd tocyn cerbyd yn cael ei anfon atoch tua phythefnos cyn yr arddangosfa. Gwnewch yn siŵr bod y tocyn yn cael ei arddangos yn glir pan fyddwch chi'n cyrraedd.

Gan ein bod yn disgwyl llawer o fysiau, peidiwch â chyrraedd fwy na 15 munud cyn yr amser a drefnwyd ar eich cyfer. Dewch i gampws y brifysgol o Heol Cyncoed a mynd ymlaen drwy’r barrau. Bydd stiwardiaid traffig yn dangos i chi sut mae mynd drwy’r campws i’r man gollwng. Yna bydd bysiau’n cael eu cyfeirio oddi ar y campws drwy’r llwybr unffordd tuag at yr allanfa.

Bydd y man casglu yr un fath â’r man gollwng. I helpu i osgoi tagfeydd, gwnewch yn siŵr bod eich holl fyfyrwyr yn ymwybodol o’r amser gadael.

### Damweiniau a damweiniau fu bron â digwydd

A fyddech cystal â rhoi gwybod am unrhyw ddamweiniau, neu ddamweiniau fu bron â digwydd, i drefnydd y digwyddiad, yn swyddfa’r trefnydd.

Gellir disgrifio damwain fu bron â digwydd fel digwyddiad sydd ddim yn arwain at anaf personol, ond dim ond drwy lwc; efallai na fydd y person nesaf mor lwcus! Mae ymchwil wedi dangos bod cyswllt clir rhwng damweiniau a damweiniau fu bron â digwydd. Gall rhoi gwybod am ddamweiniau fu bron â digwydd neu amodau sydd ddim yn ddiogel helpu i atal damweiniau, yn ogystal â hybu amgylchedd gwaith mwy diogel i weithwyr ac ymwelwyr. Gall data a gesglir o adroddiadau am ddamweiniau a damweiniau fu bron â digwydd ddod â thueddiadau a pheryglon eraill i'r amlwg.

## C

## Ceir

Mae lle parcio i ymwelwyr ar y safle. Pan fyddwch chi'n dod i mewn i’r campws, cymerwch y troad cyntaf i’r chwith cyn y barrau. **Bydd angen i chi dalu ac arddangos ar y diwrnod.** Y gost yw £2 y diwrnod (nid yw’r peiriannau’n rhoi newid), neu gallwch dalu drwy daliad digyffwrdd. Mae'r meysydd parcio yn cael eu rheoli gan gwmni preifat, a bydd dirwyon parcio yn cael eu rhoi os na fyddwch yn arddangos tocyn parcio.

Ar ôl parcio, ewch i’r brif dderbynfa a dilyn arwyddion yr arddangosfa. Byddwch yn mynd i'r Ganolfan Athletau Dan Do Genedlaethol drwy’r prif adeilad.

**Parcio i ymwelwyr anabl**
Dilynwch gyfarwyddiadau’r staff sy'n delio â thraffig i fynd i'r llefydd parcio ar gyfer ymwelwyr anabl. Dim ond deiliaid bathodyn glas gaiff barcio yn y llefydd hyn.

## Cyfarwyddiadau

**Car**
Dylai’r rheini sy'n teithio mewn car roi’r cod post **CF23 6XD** yn eu system llywio lloeren (sat nav). Byddwch yn mynd ar y campws drwy Heol Cyncoed.

**Trên**
Mae gorsafoedd rheilffordd Lefel Uchel a Lefel Isel y Mynydd Bychan oddeutu 25 munud ar droed o gampws Cyncoed, ac yn gwasanaethu’r ardal o linellau’r Rhymni a Coryton.

## Cymorth cyntaf

Mae ystafell feddygol yn y lleoliad, gyda staff sy'n gymwys i roi cymorth cyntaf. Os bydd arnoch angen cymorth meddygol, cysylltwch â’r trefnwyr drwy swyddfa’r trefnydd yn gyntaf.

## Cyrraedd

Ar ôl cyrraedd, ewch i brif fynedfa’r Ganolfan Athletau Dan Do Genedlaethol, lle byddwch chi’n gweld baneri croeso addysg uwch UCAS. Ewch drwy’r drysau ac estyn eich tocyn yn barod. Os nad oes gennych chi docyn gyda chi, ewch i’r ddesg gofrestru ar y safle – bydd arwyddion clir yn dangos lle mae’r ddesg ar y diwrnod.

## D

### Damweiniau a damweiniau fu bron â digwydd

A fyddech cystal â rhoi gwybod am unrhyw ddamweiniau, neu ddamweiniau fu bron â digwydd, i drefnydd y digwyddiad, yn swyddfa'r trefnydd.

Gellir disgrifio damwain fu bron â digwydd fel digwyddiad sydd ddim yn arwain at anaf personol, ond dim ond drwy lwc; efallai na fydd y person nesaf mor lwcus! Mae ymchwil wedi dangos bod cyswllt clir rhwng damweiniau a damweiniau fu bron â digwydd. Gall rhoi gwybod am ddamweiniau fu bron â digwydd neu amodau sydd ddim yn ddiogel helpu i atal damweiniau, yn ogystal â hybu amgylchedd gwaith mwy diogel i weithwyr ac ymwelwyr. Gall data a gesglir o adroddiadau am ddamweiniau a damweiniau fu bron â digwydd ddod â thueddiadau a pheryglon eraill i'r amlwg.

### Diogelwch

Darperir gwasanaeth diogelwch ar gyfer yr arddangosfa. Fe'ch cynghorir i fynd i swyddfa'r trefnydd ar unwaith os oes rhywun yn dwyn rhywbeth gennych.

## E

### Eiddo coll

Os bydd rhywun yn dod o hyd i eiddo coll, dylid mynd ag ef i'r dderbynfa neu i swyddfa'r trefnydd.

## P

### Parcio

Does dim modd i fysiau barcio ar y safle, a bydd angen i'r gyrwyr ollwng eu grwpiau a dod i'w casglu. I gael rhagor o fanylion, edrychwch ar yr adrannau 'bysiau' a 'ceir' uchod.

### Peiriannau arian parod

Mae peiriannau arian parod ar gael ar y safle a gellir prynu bwyd a diod gyda cherdyn.

## Rh

### Rhyngrwyd

Mae WiFi ar gael yn y digwyddiad hwn drwy'r rhwydwaith agored i ymwelwyr.

## S

### Staff y digwyddiad

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau cyffredinol i'w gofyn yn ystod y digwyddiad (ee sut i gael hyd i'r toiledau), gofynnwch i unrhyw un o staff y digwyddiad a fydd yn gwisgo crysau-t coch UCAS.

## T

### Trefniadau mewn argyfwng

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gyfarwydd â'r trefniadau y dylid eu dilyn mewn argyfwng yn y lleoliad.

### Trefnwyr

Mae swyddfa'r trefnydd y tu ôl i'r stondinau ar ochr chwith y neuadd.

## Y

### Ysmygu

Mae gan y Ganolfan Athletau Dan Do Genedlaethol a champws Cyncoed bolisi **dim ysmygu** llym yn y neuadd ac ar y campws. Gofynnir am eich cydweithrediad llwyr i sicrhau y cydymffurfir â hyn yn ystod yr arddangosfa. Bydd arwyddion di-fwg wrth fynedfeydd adeiladau ac mewn mannau sylweddol gaeedig.

## Yswiriant

Mae gan y trefnydd yswiriant atebolrwydd gweithwyr a chyhoeddus digonol. Mae copi o'r dystysgrif yng nghefn y pecyn hwn.

Er bod y trefnydd yn cymryd pob cam posib i ddiogelu eiddo ymwelwyr pan fydd digwyddiad yn cael ei gynnal, nid yw'n gyfrifol am unrhyw golledion na difrod. Dylai arweinwyr y grwpiau wneud yn siŵr bod ganddynt yswiriant atebolrwydd cyflogwyr a chyhoeddus, yn unol â'r telerau ac amodau archebu.

Hasilwood House
60 Bishopsgate
London EC2N 4AW
Tel: 020 7847 8670
Fax: 020 7847 8689

UMAL

TO WHOM IT MAY CONCERN

15th July 2017

Dear Sir/Madam

**CARDIFF METROPOLITAN UNIVERSITY**
**AND ALL ITS SUBSIDIARY COMPANIES**

We confirm that the above Institution is a Member of U.M. Association Limited, and that the following covers are currently in place:-

1. **EMPLOYERS' LIABILITY**

| | |
|---|---|
| Certificate No. | Y016458QBE0117A/036 |
| Period of Cover | 1 August 2017 to 31 July 2018 |
| Limit of Indemnity | £25,000,000 any one event unlimited in the aggregate. |
| Includes | Indemnity to Principals |
| Cover provided by | QBE Insurance (Europe) Limited and Excess Insurers. |

2. **PUBLIC AND PRODUCTS LIABILITY**

| | |
|---|---|
| Certificate of Entry No. | UM036/96 |
| Period of Cover | 1 August 2017 to 31 July 2018 |
| Includes | Indemnity to Principals |
| Limit Of Indemnity | £50,000,000 any one event and in the aggregate in respect of Products Liability and unlimited in the aggregate in respect of Public Liability. |
| Cover provided by | U.M. Association Limited and Excess Cover Providers led by QBE Insurance (Europe) Limited |

If you have any queries in respect of the above details, please do not hesitate to contact us.

Yours faithfully

Susan Wilkinson

Susan Wilkinson
For U.M. Association Limited

ISO 9001 REGISTERED FIRM

# PRIFYSGOL METROPOLITAN CAERDYDD

## CAMPWS CYNCOED

# TREFNIADAU AR GYFER GWAGIO'R ADEILAD

**(RHIFYN UN, MAWRTH 1998, Adolygwyd MAWRTH 2011)**

## 1. Y TREFNIADAU

**Y Larwm**

1. Os bydd rhywun yn canfod tân, dylid canu'r larwm ar unwaith drwy dorri'r gwydr ar banel y larwm agosaf a gadael yr adeilad drwy'r allanfa agosaf. Ni ddylai unrhyw un sydd heb gael hyfforddiant geisio diffodd y tân.

II. Er mwyn i bob aelod o staff a myfyriwr gael cyfle i ymgyfarwyddo â sain y larwm ar gyfer gadael yr adeilad, dylid profi'r system bob dydd Mercher rhwng 0800 a 0855. Bryd hynny, dylai pob aelod o staff a myfyriwr ymgyfarwyddo â'r trefniadau ar gyfer gadael yr adeilad.

### Gadael yr Adeilad

III Os bydd y larwm yn canu, ac eithrio yn ystod y prawf wythnosol, rhaid i holl Staff, Myfyrwyr ac Ymwelwyr y Coleg adael yr adeilad ar unwaith gan ddefnyddio'r llwybr agosaf, ac ymgynnull y tu allan yn y "MANNAU YMGYNNULL" perthnasol.

**GADAEL Y PRIF ADEILAD**

MAN YMGYNNULL "1" - O FLAEN BLOC "B" YN Y PRIF FAES PARCIO I STAFF.
MAN YMGYNNULL "2" - O FLAEN TŶ THOMAS, GER PRESWYLFEYDD CLARE.
MAN YMGYNNULL "3" - AR OCHR CENTRO
MAN YMGYNNULL "5" - WRTH Y CAE CHWARAE ARTIFFISIAL, YNG NGHEFN Y PRIF ADEILAD
MAN YMGYNNULL "9" - AR Y LLAIN WERDD, Y NEUADD CHWARAEON, GYFERBYN Â GRISIAU BLOC C

**GADAEL Y NEUADD CHWARAEON**

MAN YMGYNNULL "3" - AR OCHR CENTRO
MAN YMGYNNULL "4" - RHWNG Y NEUADD CHWARAEON AC ADEILAD QUEENSWOOD.
MAN YMGYNNULL "9" - AR Y LLAIN WERDD, Y NEUADD CHWARAEON, GYFERBYN Â GRISIAU BLOC C

**GADAEL Y GANOLFAN DENNIS**

MAN YMGYNNULL "6" - YM MAES PARCIO'R GANOLFAN DENNIS

**GADAEL QUEENSWOOD**

MAN YMGYNNULL "4" - RHWNG Y NEUADD CHWARAEON AC ADEILAD QUEENSWOOD.

**GADAEL Y TŶ YMCHWIL**

MAN YMGYNNULL "5" - WRTH Y CAE CHWARAE ARTIFFISIAL, YNG NGHEFN Y PRIF ADEILAD

**Y GANOLFAN ATHLETAU DAN DO GENEDLAETHOL**

MANNAU YMGYNNULL 7 AC 8 - CAE RYGBI RHIF 2 - YNG NGHEFN ADEILAD Y GANOLFAN ATHLETAU DAN DO GENEDLAETHOL

**GADAEL Y NEUADD CHWARAEON NEWYDD YM MLOC P**

MAN YMGYNNULL "YNG NGHEFN BLOC P DROS DRO" - YNG NGHEFN Y NEUADD CHWARAEON NEWYDD A BYDD ARWYDDION A LLWYBR DROS DRO YN EI DDANGOS NES BYDD Y GWAITH ADEILADU WEDI'I GWBLHAU.

GALL POBL Â CHADAIR OLWYN HEFYD DDEFNYDDIO'R ALLANFA FLAEN A "MAN YMGYNNULL 6" YM MAES PARCIO'R GANOLFAN DENNIS

**GADAEL Y PRESWYLFEYDD**

| | |
|---|---|
| FITZHAMMON, HERBERT A STRADLING | MAN YMGYNNULL "1", O FLAEN BLOC "B" YN Y PRIF FAES PARCIO I STAFF. |
| TŶ WARWICK, TŶ THOMAS, CLARE, BUTE AC ELLIS | MAN YMGYNNULL "2", O FLAEN TŶ THOMAS, GER PRESWYLFEYDD CLARE. |
| STUTTGART, BALTIMORE, NANTES A NEVILLE | MAN YMGYNNULL "3", AR OCHR FFREUTUR CENTRO. |

**NI DDYLID DEFNYDDIO LIFFTIAU O DAN UNRHYW AMGYLCHIADAU.**

**BYDD YR HYSBYSIADAU TREFNIADAU TÂN GLAS SYDD WEDI'U GOSOD YN STRATEGOL AR WALIAU A DRYSAU DRWY'R CAMPWS YN CYNNWYS RHAGOR O FANYLION AM Y MANNAU YMGYNNULL A'R GOFYNION O RAN GADAEL YR ADEILAD.**

IV. **Drysau Dianc Bollt Pin**
Mae'r drysau hyn wedi'u cloi ac mae larwm arnynt bob amser. Fodd bynnag, petai angen gadael yr adeilad mewn argyfwng, dylid torri'r 'bolltau pin' a defnyddio'r drysau.

V. Bydd drysau llithro'r Brif Fynedfa yn agored bob amser er mwyn caniatáu i Staff, Myfyrwyr ac Ymwelwyr fynd allan yn gyflym.

VI. Ar ôl mynd allan, dylai unigolion fynd ymlaen i'r Man Ymgynnull agosaf a chadw ymhell i ffwrdd o'r adeilad ei hun.
Rhaid cadw mynedfeydd a ffyrdd i mewn i'r adeilad yn glir er mwyn i Wasanaethau Brys allu cael mynediad.
Dylai Wardeiniaid Tân a Staff sicrhau bod Myfyrwyr ac Ymwelwyr yn gadael yr adeilad ac yn mynd i'r Man Ymgynnull priodol, gan beidio ag ymgynnull tu allan i'r drysau mynediad.

VII Ni ddylai fod unrhyw symudiadau traffig sydd ddim yn angenrheidiol. Bydd y "Barrau" ym mynedfa'r Maes Parcio Blaen ar agor er mwyn caniatáu i Gerbydau Gwasanaethau Brys (Tân, Ambiwlans ac ati) gael mynediad.

VIII Mae'n rhaid i'r Wardeiniaid Tân wneud yn siŵr bod pawb wedi gadael yr adeilad a rhoi gwybod i Gydlynydd Gwagio'r Adeilad neu i Ddirprwy Gydlynydd Gwagio'r Adeilad, wrth un o'r Mannau Ymgynnull.

IX Dylai tiwtoriaid gymryd pob cam rhesymol i wneud yn siŵr bod pob Myfyriwr sydd mewn dosbarthiadau wedi gadael yr adeilad, ac os bydd yn bosibl, dylid galw'r gofrestr yn y man ymgynnull perthnasol.

X Rhoddir cymeradwyaeth i fynd yn ôl i mewn i'r adeilad drwy ddistewi'r larwm ar ôl archwilio'r ardal yr effeithiwyd arni'n drylwyr. Neu, bydd y Wardeiniaid yn cymeradwyo hynny yn unol â chyfarwyddiadau Cydlynydd Gwagio'r Adeilad / Rheolwr Gwasanaethau'r Campws. Staff ddylai fynd yn ôl i mewn i'r adeilad yn gyntaf, yna'r Myfyrwyr a'r Ymwelwyr.

XI. Os bydd Cydlynwyr Gadael yr Adeilad, y Wardeiniaid neu unigolion sy'n gadael yr adeilad yn sylwi ar unrhyw broblem sy'n atal y Trefniadau ar gyfer Gadael yr Adeilad rhag gweithredu'n ddidrafferth, dylant roi gwybod yn syth i Reolwr Gwasanaethau'r Campws fel bod modd cymryd camau adferol.

**2. SYMUD POBL SY'N DEFNYDDIO CADAIR OLWYN/ POBL Â SYMUDEDD CYFYNGEDIG**

I. Dylid rhoi pob cymorth i symud defnyddwyr cadeiriau olwyn / pobl â phroblemau symudedd drwy ddefnyddio cadeiriau Achub. **Fodd bynnag, ni ddylid defnyddio lifftiau ar y diben hwn o dan unrhyw amgylchiadau.**

**3. TREFNIADAU AMGEN AR GYFER GADAEL YR ADEILAD**

I. Mewn rhai achosion, efallai na fydd angen canu'r larwm. Yn yr achosion hynny, bydd y Wardeiniaid Tân yn rhoi cyfarwyddiadau llafar i chi ar gyfer gadael yr adeilad.

II. Rhoddir cymeradwyaeth i fynd yn ôl i mewn i'r adeilad drwy ddistewi'r larwm ar ôl archwilio'r ardal yr effeithiwyd arni'n drylwyr. Neu, bydd Wardeiniaid yn cymeradwyo hynny yn unol â chyfarwyddiadau Cydlynydd Gadael yr Adeilad / Rheolwr Gwasanaethau'r Campws.

**4. WARDENIAID TÂN**

I Bydd rhestr o enwau'r Wardeiniaid Tân ynghyd â'u meysydd cyfrifoldeb yn cael ei chadw gan y Swyddog Iechyd a Diogelwch, Rheolwr Gwasanaethau'r Campws a Derbynnydd Gwasanaethau'r Campws.

5. **YMARFER GADAEL YR ADEILAD**

I. Mae'n hanfodol fod trefniadau gadael mewn argyfwng yn cael eu hymarfer yn rheolaidd i sicrhau bod staff a myfyrwyr

yn gwbl ymwybodol o’r trefniadau hynny. Bydd ymarferion o’r fath hefyd yn cael eu defnyddio i brofi effeithlonrwydd y systemau sydd wedi’u mabwysiadu, ac i ganfod meysydd i’w gwella neu eu haddasu.

II. Bydd gan Reolwr Gwasanaethau'r Campws gyfrifoldeb cyffredinol dros gydlynu'r Trefniadau ar gyfer Gadael yr Adeilad, a bydd Wardeiniaid Gadael yr Adeilad yn cael eu penodi i helpu Rheolwr Gwasanaethau’r Campws i roi trefniadau o’r fath ar waith.

III. Bydd hysbysiadau rhybuddion tân wedi cael eu gosod yn strategol ym mhob coridor, a byddant yn dangos y llwybr dianc yn glir.

IV. Bydd yn hawdd canfod holl fannau’r larymau a’r offer tân.

**JAMES HOWELL**
**RHEOLWR GWASANAETHAU'R CAMPWS** Mawrth 2017

# PARK INDIGO APP

## Lawrlwythwch yr Ap ar gyfer parcio hawdd

## Download the App for easy parking

Chwiliwch am Park Indigo App ar Google play neu'r App Store

Search for Park Indigo App on Google play or the App Store

GET IT ON Google Play

Download on the App Store




Bydd angen i chi ddefnyddio'r Ap Parcio i barcio

**Sut i ddefnyddio'r Ap Parcio**

1. Ewch i Google play neu'r App Store
2. Chwiliwch am Indigo Park App a'i lawrlwytho
3. Crewch gyfrif neu os oes gennych chi eisoes gyfrif, diweddarwch ac ychwanegwch eich manylion cerdyn debyd / credyd
4. Archebwch yn awr neu ymlaen llaw, dewiswch y cyfnod - arhosiad dyddiol, wythnosol, pythefnosol neu fisol
5. Talu am eich arhosiad
6. Caiff derbynebau eu storio yn 'My Activity' ar yr Ap ac anfonir e-bost atoch chi hefyd

You will need to use the Parking App to park

**How to use the Parking App**

1. Go to Google Play or App Store
2. Search Indigo Park App & download
3. Create an account or if you already have an account, update and add your debit/credit card details
4. Book now or in advance choose the duration - daily, weekly, fortnightly or monthly stay
5. Pay for your stay
6. Receipts will be stored in 'My Activity' on the App and emailed to you as well